# Strategaeth Atal a Lleihau Trais De Cymru

Uned Atal & Lleihau Trais De Cymru
South Wales Violence Prevention & Reduction Unit

Themâu Trawsbynciol

CYMRU HEB DRAIS

## Atgyfnerthu systemau i fynd i'r afael â thrais difrifol

Alinio CHTC 2

- Sefydlu a chydgysylltu fframwaith llywodraethu clir ac effeithiol i gydgysylltu ymdrechion i atal/lleihau trais ledled De Cymru.
- Llywio'r broses o wneud penderfyniadau a datrys problemau ar y cyd ar draws partneriaid amlasiantaethol.
- Cydweithio i gomisiynu gwasanaethau sy'n lleihau bregusrwydd ac yn gwella diogelwch cymunedol.
- Defnyddio'r fframwaith llywodraethu a'r systemau sefydledig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a bregusrwydd croestoriadol drwy ddull iechyd y cyhoedd.

## Camau gweithredu sy'n seiliedig ar ddata a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Alinio CHTC 2 3 5

PHA

- Gwella prosesau rhannu data a gwybodaeth amlasiantaethol i lywio ymatebion wedi'u targedu.
- Atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth o ran ble a phryd y mae trais difrifol yn digwydd er mwyn cefnogi ymateb ar sail gwybodaeth.
- Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn i nodi'r hyn sy'n gweithio a mesur effaith ymyriadau, gan ddefnyddio gwaith gwerthuso a gwersi a ddysgwyd i fireinio strategaethau a gwella canlyniadau.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella ansawdd data er mwyn meithrin dealltwriaeth gwell a sicrhau ymatebion gwell i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â throseddu a grwpiau agored i niwed.
- Ymgorffori dadansoddiadau o beryglon ar-lein a ffactorau risg digidol mewn dulliau atal trais er mwyn adlewyrchu natur sy'n esblygu trais.

## Atal trais drwy ymyrryd yn gynnar

Alinio CHTC 2 3

CYP

- Ehangu a gwella ymyriadau i drais difrifol sy'n ystyriol o drawma ac yn ddiwylliannol gymwys er mwyn gwella ffactorau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan gynnwys ymyriadau ar adegau allweddol penodol.
- Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio clir a hygyrch i unigolion a theuluoedd gael cymorth.
- Cymryd camau rhagweithiol i atal niwed rhag gwaethygu drwy nodi ac ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys dulliau partneriaeth arloesol.
- Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i addysgu pobl ifanc am ymddygiadau niweidiol a chydberthnasau iach, gan ganolbwyntio ar gysondeb a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwybodol o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â phobl ifanc.

## Ymatebion cyfiawnder troseddol a gorfodi effeithiol

Alinio CHTC 1 3 4

EDI

- Defnyddio camau gorfodi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a lle a datrys problemau mewn mannau problemus i leihau ac atal trais, gan gynnwys ymateb i ofn trais sy'n seiliedig ar le a chanfyddiadau o niwed.
- Defnyddio adnoddau cyfreithiol creadigol a phwerau gorfodi i darfu ac atal achosion difrifol o drais a chamfanteisio.
- Sicrhau y caiff pwerau gorfodi eu defnyddio'n deg, yn briodol ac mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.
- Atgyfnerthu llwybrau i droseddwyr gael gafael ar raglenni newid ymddygiad, cyfiawnder adferol ac adsefydlu.
- Sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn diogelu ac yn cefnogi dioddefwyr troseddau treisgar yn ogystal â dwyn y rhai sy'n achosi niwed i gyfrif.

## Cefnogi ac ymgysylltu â chymunedau

Alinio CHTC 1 2 5

VAWG

- Ennyn ymddiriedaeth a hyrwyddo atebolrwydd rhwng cymunedau a phartneriaid er mwyn lleihau ofn a gwella cydweithrediad, drwy ddull sy'n ystyriol o drawma.
- Ymgysylltu â lleisiau lleol a phrofiadau bywyd a'u grymuso er mwyn llywio datrysiadau ac ysgogi newid a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys y cymunedau hynny y mae anghydraddoldeb a thrais cyson yn effeithio arnynt.
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u grymuso i lywio datrysiadau ystyrlon a gaiff eu llunio ar y cyd.
- Atgyfnerthu dulliau cyfathrebu er mwyn sicrhau bod cymunedau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth a gafwyd; bod dull sy'n seiliedig ar ddata yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sicrwydd am faterion allweddol a chefnogi ymwybyddiaeth gynyddol o effaith yr Uned Atal a Lleihau Trais a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.